

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Y Gronfa Tai â Gofal (CTG)

## Canllaw 2022-23

## Mai 2022

Fersiwn 1

OGL © Hawlfraint y Goron 2022, Llywodraeth Cymru, WG44766, ISBN digidol 978-1-80364-194-2

# Cynnwys


Cyflwyniad ..... 4
Rhan 1: Dibenion ..... 5
Sail resymegol ..... 5
Gweledigaeth strategol ..... 6
Mesur llwyddiant ..... 7
Fframwaith Canlyniadau Iechyd a Gofal Cymdeithasol ..... 7
Dangosyddion penodol i'r Gronfa Tai â Gofal ..... 7
Gwireddu buddiannau ..... 7
Grwpiau â blaenoriaeth ..... 8
Pobl hŷn gan gynnwys pobl â dementia ..... 8
Plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth ..... 8
Pobl ag anableddau dysgu, cyflyrau niwroamrywiol a chyflyrau niwroddatblygiadol ..... 9
Gofalwyr di-dâl ..... 9
Pobl ag anghenion iechyd emosiynol a llesiant meddyliol ..... 9
Tystiolaeth o angen ..... 10
Cymunedau ymarfer ..... 11
Rhan 2: Rheolaeth Ariannol ..... 12
Cyllideb a rheolaeth ariannol ..... 12
Strwythur y Gronfa ..... 13
Mathau o brosiectau a all gael eu cyllido ..... 14
Amcan 1: tai â gofal ..... 14
Amcan 2: llety a gofal canolraddol ..... 15
Amcan 3: prosiectau bach ..... 16
Astudiaethau dichonoldeb ..... 17
Rhoi adnoddau i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol reoli'r Gronfa Tai â Gofal ..... 17
Cynllun Buddsoddi Cyfalaf ..... 18
Prosiectau etifeddol ..... 18
Rhan 3: Cyflawni'r Rhaglen ..... 20
Trosolwg ..... 20
Rolau a chyfrifoldebau ..... 20
Llywodraeth Cymru ..... 20
Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ..... 21
Sefydliadau cyflawni ..... 22

Cynigion cynnar ..... 22
Amcan 1 y Gronfa Tai â Gofal: craffu technegol, cymeradwyo a thalu grant ..... 23
Amcan 1: amserlenni ar gyfer ceisiadau a hawliadau ..... 25
Amcan 2 y Gronfa Tai â Gofal: cyngor technegol, cymeradwyo a thalu grant ..... 25
Amcan 2: gwneud cais a chael cymeradwyaeth ..... 25
Pridiannau a chyfyngiadau cyfreithiol ..... 26
Amcan 3 y Gronfa Tai â Gofal: cymeradwyo a thalu grant ..... 27
Talu grant i Fyrddau Iechyd Lleol: Amcan 2 a 3 ..... 28
Cyfrifon banc prosiectau ..... 28
Caffael ..... 28
Monitro'r Rhaglen ..... 29
Cyfathrebu a brandio ..... 30

## Cyflwyniad

1. Sefydlwyd rhaglen y GGI yn 2014 o dan enw'r Gronfa Gofal Canolraddol, ac yna'r Gronfa Gofal Integredig (CGI). Rhwng 2018-19 a 2021-22, rhoddodd y gronfa werth £145m o gyfalaf drwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn cefnogi amrywiaeth o brosiectau seilwaith ar gyfer tai a llety arbenigol rhanbarthol, gofal canolraddol a gofal cymdeithasol. Roedd y rhaglen gyfalaf yn cefnogi cronfa refeniw y GGI ac yn diwallu anghenion yr un grwpiau, yn seiliedig ar Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn bennaf.
2. Yn ystod hydref 2021, cytunodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i sefydlu cronfa olynol pum mlynedd i raglen refeniw y GGI a'r Gronfa Trawsnewid, sef y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (GIRh). Hefyd, sicrhawyd cyllid cyfalaf i gefnogi ymrwymiadau Rhaglen Lywodraethu 2021 Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag atgyfnerthu'r seilwaith gwasanaethau cymdeithasol, er enghraifft drwy sefydlu canolfannau iechyd a gofal integredig a hybiau cymunedol.
3. Mae'r cyfraniad ym maes tai at yr agenda ranbarthol drawslywodraethol yn seiliedig ar ymrwymiadau Cymru Iachach a'r Rhaglen Lywodraethu i gefnogi datblygiadau tai arloesol er mwyn diwallu anghenion gofal a chyllido gwasanaethau preswyl rhanbarthol i blant ag anghenion cymhleth, gan sicrhau y caiff eu hanghenion eu diwallu mor agos â phosibl at adref ac yng Nghymru lle bynnag y bo hynny'n ymarferol. Rhaglen gyfalaf pedair blynedd yw'r Gronfa Tai â Gofal, ac mae cyllid dangosol gwerth £181.5m wedi'i gadarnhau ar ei chyfer am y tair blynedd cyntaf.
4. Mae’r canllaw hwn yn benodol i’r Gronfa Tai â Gofal.
5. Prif diben y Gronfa Tai â Gofal yw cynyddu'r stoc o dai er mwyn diwallu anghenion pobl ag anghenion gofal a chymorth. Ochr yn ochr â'r Gronfa, bydd cyllid cyfalaf ychwanegol ar gael o raglen gyfalaf y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol er mwyn helpu i ddatblygu hybiau cymunedol ac ailgydbwyso'r sector gofal preswyl. Cyhoeddir canllaw ar wahân ar gyfer cronfa gyfalaf y GIRh. Mae'r ddwy gronfa yn ategu ei gilydd a chânt eu cefnogi gan gyllid refeniw'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol er mwyn cefnogi modelau newydd o ofal ataliol. Gyda'i gilydd, mae'r ddwy gronfa gyfalaf a'r gronfa refeniw yn cynnig cynnydd sylweddol mewn cyllid er mwyn cyflymu'r broses o newid i fyw'n annibynnol a chael gofal yn nes at adref, fel y nodir yn Cymru Iachach. Caiff y cronfeydd eu goruchwylio gan y saith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.
6. Dylai'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol hefyd fod yn ymwybodol o fuddsoddiadau Llywodraeth Cymru mewn cyfleusterau cymunedol eraill, megis gofal sylfaenol a rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu (olynydd Ysgolion yr 21ain Ganrif), a cheisio synergedd â nhw. Gall lleoliad y buddsoddiadau hyn gael effaith uniongyrchol ar sut a ble y bydd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn buddsoddi cyllid o'r Gronfa Tai â Gofal er mwyn sicrhau'r budd mwyaf posibl i bobl, yn ogystal â chanfod cyfleoedd i fuddsoddi ar y cyd mewn tai â gofal a chyfleusterau iechyd, gofal a chymunedol.

# Rhan 1: Dibenion

## Sail resymegol

7. Diben y GTG yw helpu pobl ag anghenion gofal a chymorth i fyw'n annibynnol yn y gymuned a darparu lleoliadau gofal canolraddol yn y gymuned fel y gall pobl y mae angen gofal, cymorth ac adsefydlu arnynt ddychwelyd neu barhau i fyw'n annibynnol.

8. Mae gan Weinidogion Cymru dri phrif reswm dros fuddsoddi mewn tai â gofal:

   a) **Poblogaeth sy'n heneiddio.** Y duedd hirdymor fwyaf arwyddocaol yw'r ffaith bod poblogaeth Cymru yn heneiddio. Mae'r amcanestyniadau o'r boblogaeth sy'n seiliedig ar ddata 2018 yn amcangyfrif y bydd cyfanswm y boblogaeth 65 oed a throsodd yn cynyddu o 679,000 yn 2021 i 856,000 yn 2041, sef cynnydd o fwy na chwarter. Ymhlith pobl 75 oed a throsodd mae'r duedd yn fwyaf amlwg. Bydd maint y boblogaeth 75+ oed yn cynyddu o 315,000 yn 2021, i 393,000 yn 2031 ac i 468,000 yn 2041, sef cynnydd o 150,000 neu bron 50%. Fel cyfran o gyfanswm y boblogaeth, bydd canran y bobl 75 oed a throsodd yn cynyddu o 9.9% yn 2021 i 14.4% yn 2041.

      Yn ogystal ag iechyd ac anabledd sy'n gysylltiedig ag oedran, mae mwy o bobl sydd eisoes â chyflyrau iechyd yn byw'n hŷn gydag effeithiau iechyd cronnol, megis pobl ag anabledd dysgu neu ddementia.

      Helpu'r poblogaethau hyn i barhau i fyw'n annibynnol â gofal a chymorth gartref yw prif amcan y Gronfa Tai â Gofal.

      I gael adolygiad manylach o anghenion tai poblogaeth hŷn, a'r goblygiadau ehangach o ran dewis o dai a chydlyniant cymunedol, gweler Tai i'r dyfodol, sef adroddiad Grŵp Arbenigol Llywodraeth Cymru ar ddarparu tai ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio (2017).

   b) **Gofal yn nes at adref**. Yr ail sbardun yw sicrhau y caiff anghenion llety a gofal grwpiau arbennig o agored i niwed na allant fyw'n gwbl annibynnol eu diwallu mor agos at adref â phosibl.

      Er enghraifft, caiff nifer o blant a phobl ifanc ag anghenion mwy dwys ac ymddygiad heriol eu gosod mewn lleoliadau y tu allan i'r sir neu y tu allan i'r wlad bob blwyddyn. Mae lleoliadau y tu allan i'r ardal yn gostus, maent yn golygu llai o reolaeth leol dros drefniadau rheoli iechyd a gofal yr unigolyn, maent yn cael effaith ddifrifol ar gyswllt teuluol a chydberthnasau ac maent yn niweidiol i lesiant a chanlyniadau hirdymor yr unigolyn. Mae'n anodd amcangyfrif y costau am fod pob achos yn unigryw ac oherwydd y gall lleoliadau fod yn fwy neu'n llai arbenigol a/neu ddiogel, ond nid yw costau o fwy na £200,000 y flwyddyn yn anghyffredin. Cyfyd heriau tebyg mewn perthynas â lleoli oedolion ag anableddau dysgu cymedrol i ddifrifol a/neu awtistiaeth.

      Gall y Gronfa Tai â Gofal helpu i sicrhau darpariaeth ddigonol o lety â gofal yn lleol ond rhaid gwneud newidiadau i fodelau gofal ar yr un pryd a all, yn ei dro, olygu fod angen meithrin gallu a galluogrwydd y gweithlu lleol i roi gofal arbenigol. Mae'n bosibl bod y sgiliau hyn wedi lleihau ymhlith y gweithlu o ganlyniad i arferion comisiynu blaenorol. Mae integreiddio'r Gronfa Tai â Gofal

a'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn hollbwysig yn hyn o beth.

c) **Gwasanaethau iechyd a gofal canolraddol yn y gymuned.** Y trydydd sbardun yw sicrhau bod cyfleusterau digonol i ddarparu cyfleusterau cam i fyny/cam i lawr, ailalluogi ac adsefydlu yn y gymuned. Er mwyn helpu pobl i barhau i fyw'n annibynnol gartref, mae'n hanfodol sicrhau bod pobl yn treulio cyn lleied â phosibl o amser yn yr ysbyty, ac osgoi defnyddio gofal preswyl neu ofal nyrsio oni bai bod hynny'n gwbl angenrheidiol. Mae darparu cyfleusterau priodol â gwelyau yn y gymuned yn osgoi uwchgyfeirio i'r ysbyty, gofal preswyl neu lety diogel (cam i fyny) ac yn hwyluso'r broses o ddychwelyd i fyw'n annibynnol gartref ar ôl aros yn yr ysbyty neu mewn cyfleuster gofal (cam i lawr). Mae cyfleusterau cymunedol sy'n adlewyrchu amgylcheddau cartref, gyda chymorth gwasanaethau gofal ac adsefydlu priodol, yn annog pobl i barhau i fyw'n annibynnol a bod yn fwy annibynnol, na fyddai'n digwydd fel arall o bosibl mewn cyfleusterau cam i fyny/cam i lawr mewn ysbytai neu ofal preswyl.

## Gweledigaeth strategol

9. Rhaglen ataliol yw'r Gronfa Tai â Gofal yn gyntaf oll. Caiff y rhan fwyaf o'r cyllid ei fuddsoddi mewn tai sydd wedi'u dylunio i sicrhau y gall pobl ag anghenion gofal a chymorth barhau i fyw'n annibynnol mewn cartref sy'n cwrdd â'u hanghenion tra'n caniatáu iddynt gadw eu hannibyniaeth. Rhaid i'r cartrefi hynny fodloni'r amodau canlynol:

- rhaid eu dylunio mewn ffordd hyblyg er mwyn diwallu anghenion tai preswylwyr a defnyddwyr gwasanaethau nawr ac yn y dyfodol;
- rhaid iddynt gyrraedd safonau ansawdd dylunio a datgarboneiddio Llywodraeth Cymru;
- rhaid rhoi blaenoriaeth i leoliadau yng nghanol trefi, yn agos at wasanaethau hanfodol ac fel rhan o gymunedau cymysg a chydlynol;
- lle y bo'n briodol, rhaid iddynt ddarparu cyfleusterau a gwasanaethau y gall aelodau eraill o'r gymuned eu defnyddio.

10. Mae'r Gronfa Tai â Gofal yn ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac yn ystyried y pum ffordd o weithio.

1) Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion byrdymor a'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor. Mae tai arbenigol sydd wedi'u dylunio i ddiwallu anghenion gofal preswylwyr yn eu cartrefi eu hunain yn osgoi'r angen i wneud llawer o benderfyniadau byrdymor sy'n arwain at fynd i'r ysbyty neu gael gofal preswyl.
2) Yr angen i ddilyn dull integredig, drwy ystyried sut y gall tai a llety priodol wella iechyd a llesiant preswylydd a, thrwy wneud hynny, helpu

gwasanaethau iechyd, gwasanaethau gofal a gwasanaethau cyhoeddus eraill i gyflawni eu hamcanion llesiant.

3) Pwysigrwydd cynnwys preswylwyr a defnyddwyr gwasanaethau a sicrhau bod y personau hynny'n adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth leol.
4) Sut mae aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cydweithio â'i gilydd a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys adrannau tai awdurdodau lleol a chymdeithasau tai, i gyflawni'r amcanion llesiant.
5) Sut y gall y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol atal problemau rhag digwydd neu waethygu drwy ddefnyddio'r holl adnoddau cyfalaf a refeniw sydd ar gael iddo.

## Mesur llwyddiant

11. Caiff llwyddiant y Gronfa Tai â Gofal ei fesur yn erbyn y canlyniadau canlynol:

**Fframwaith Canlyniadau Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

- Pobl sy'n rhoi gwybod bod eu llety yn addas i'w hanghenion[1]
  - Canran yr oedolion sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth (naill ai eu hunain neu ar ran y sawl y maent yn gofalu amdano) ac sy'n cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno bod eu llety'n addas i'w hanghenion
  - Canran yr oedolion â salwch neu gyflwr cyfyngus hirdymor sy'n cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno bod eu llety'n addas i'w hanghenion (i'w gadarnhau)

**Dangosyddion penodol i'r Gronfa Tai â Gofal**

- nifer y bobl hŷn a'r bobl ag anableddau sy'n gallu byw'n annibynnol am fwy o amser;
- nifer y plant ag anghenion mwy dwys sy'n cael llety yn nes at adref;
- nifer y gofalwyr sy'n gallu cael seibiant iddynt hwy eu hunain neu i'r bobl y maent yn gofalu amdanynt;
- nifer y bobl y mae angen gwasanaethau ailalluogi neu adsefydlu arnynt, neu sy'n dysgu byw'n annibynnol ac sy'n gallu cael llety addas yn y gymuned.

**Gwireddu buddiannau**

12. Mae buddsoddi mewn tai â gofal a lleoliadau gofal canolraddol yn ddull ataliol sydd â'r bwriad o sicrhau arbedion ariannol i'r system iechyd a gofal yn ei chyfanrwydd.

13. Isod ceir dangosyddion arfaethedig ar gyfer mesur budd ariannol buddsoddiad o'r Gronfa Tai â Gofal i wasanaethau Byrddau Iechyd Lleol ac awdurdodau lleol:

- llai o bobl yn cael eu derbyn i'r ysbyty ac yn cael gofal preswyl
- pobl yn aros yn yr ysbyty am lai o amser

[1] 'Dangosydd ymgeisiol' sy'n disodli'r canlyniad canlynol yn y diweddariad nesaf i ddatganiad statudol Llywodraeth Cymru, *Datganiad llesiant ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth*, 2019, "Rwy'n byw mewn cartref sy'n fy helpu orau i sicrhau fy llesiant."

- llai o leoliadau y tu allan i'r ardal

14. Dim ond mesurau dangosol yw'r rhain ar hyn o bryd. Bydd angen gwneud rhagor o waith yn ystod 2022.

## Grwpiau â blaenoriaeth

15. Mae'r grwpiau â blaenoriaeth canlynol yn gymwys i gael cymorth gan y Gronfa Tai â Gofal. Mae'r rhain yn gyson â grwpiau'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol:
    - Pobl hŷn gan gynnwys pobl â dementia
    - Plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth
    - Pobl ag anableddau dysgu, cyflyrau niwroamrywiol a chyflyrau niwroddatblygiadol
    - Gofalwyr di-dâl
    - Pobl ag anghenion iechyd emosiynol a llesiant meddyliol

### Pobl hŷn gan gynnwys pobl â dementia

16. Dylai pobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, gan gynnwys dementia, gael cymorth i barhau i fyw'n annibynnol ac aros gartref, gan osgoi mynd i'r ysbyty yn ddiangen neu symud yn rhy gynnar i leoliad gofal preswyl neu ofal nyrsio.
17. Dylai'r Gronfa Tai â Gofal helpu pobl hŷn i barhau i fyw'n annibynnol drwy ddarpariaethau fel buddsoddiad mewn tai gofal ychwanegol.

### Plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth

18. Diffinnir plant ag anghenion cymhleth fel a ganlyn:
    - plant ag anableddau a/neu salwch;
    - plant â phrofiad o fod mewn gofal;
    - plant y mae angen gofal a chymorth arnynt;
    - plant sydd ar ffiniau gofal/mewn perygl o ddod yn blant sy'n derbyn gofal;
    - plant ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol.
19. Dylai'r Gronfa Tai â Gofal helpu i sicrhau cynnydd mewn lleoliadau gofal canolraddol a gofal yn y tymor byr i'r tymor canolig, megis llety preswyl hygyrch ar raddfa fach i blant ag anghenion mwy dwys/cymhleth, a lleoliadau gofal canolraddol yn y gymuned sy'n seiliedig ar lety a chymorth. Dylai'r rhain gael eu lleoli mor agos â phosibl at ardal leol y plentyn.

### Pobl ag anableddau dysgu, cyflyrau niwroamrywiol a chyflyrau niwroddatblygiadol

20. Dylai'r Gronfa Tai â Gofal barhau i gefnogi'r agweddau sy'n gysylltiedig â thai, iechyd a gofal cymdeithasol yn Anabledd Dysgu: Rhaglen Gwella Bywydau, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2018. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys argymhellion helaeth sy'n canolbwyntio ar dair blaenoriaeth allweddol – lleihau anghydraddoldebau iechyd, sicrhau mwy o integreiddio cymunedol a gwella systemau cynllunio a chyllido. Yn ystod pandemig COVID-19 a'r cyfnod adfer, dylai'r Gronfa Tai â Gofal hefyd fynd i'r afael ag effeithiau'r pandemig ar bobl ag anableddau dysgu, gan ystyried y camau gweithredu â phwyslais newydd o dan Raglen Gwella Bywydau, a gaiff eu cyhoeddi cyn bo hir.
21. Wrth gomisiynu llety byw'n annibynnol i bobl ag anableddau dysgu, dylid dilyn Canllaw: Comisiynu llety a chefnogaeth ar gyfer bywyd da i bobl gydag anabledd dysgu a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol yn 2019.
22. Dylid cymryd gofal i sicrhau y caiff anghenion tai a llety pobl â gwahanol gyflyrau niwroddatblygiadol eu diwallu'n briodol, e.e. mae'n bosibl y bydd anghenion pobl ag awtistiaeth yn wahanol i anghenion pobl ag anabledd dysgu.

### Gofalwyr di-dâl

23. Diffiniad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 o ofalwr yw rhywun o unrhyw oedran, boed yn blentyn neu'n oedolyn, sy'n rhoi gofal di-dâl i oedolyn neu i blentyn anabl. Gall y sawl sy'n cael gofal fod yn aelod o'r teulu neu'n ffrind na all ymdopi heb gymorth oherwydd salwch, anabledd neu broblem iechyd meddwl neu am eu bod yn gaeth i alcohol, cyffuriau ac ati.
24. Mae gofalwyr di-dâl yn cyflawni rôl hanfodol yn ein system iechyd a gofal cymdeithasol drwy ofalu am rai o'n dinasyddion mwyaf agored i niwed a'u helpu i aros yn iach gartref. Mae'n bwysig i gofio efallai bod anghenion gofal a chefnogaeth ar ofalwyr di-dâl hefyd. Fodd bynnag, gall rôl gofalwr di-dâl fod yn heriol ac yn llafurus ac mae'n hanfodol eu cefnogi er mwyn sicrhau canlyniadau iechyd a llesiant da iddynt hwy eu hunain.
25. Bydd y GTG yn parhau i gefnogi gwasanaethau sy'n cynnig seibiant mewn llety i ofalwyr di-dal, yn cynnwys gofalwyr a'r rhai y maent yn gofalu amdanynt.

### Pobl ag anghenion iechyd emosiynol a llesiant meddyliol

26. Weithiau, gall pobl ag anghenion iechyd a llesiant emosiynol ei chael hi'n anodd cynnal cartref, megis tenantiaeth yn y sectorau rhent preifat neu gymdeithasol. Gall hyn eu gwneud yn agored i niwed a digartrefedd, gan arwain at ddirywiad pellach yn eu hiechyd meddwl a'u llesiant. Gall cartref diogel a sicr â chymorth priodol i ddiwallu eu hanghenion gynnig sefydlogrwydd a sylfaen gadarn i fod yn annibynnol a chael gwell llesiant yn y dyfodol.
27. Mae'n bosibl mai dim ond am gyfnodau yn y tymor byr i'r tymor canolig y bydd angen tai â chymorth i bobl ag anghenion iechyd emosiynol a llesiant meddyliol, cyn y gellir byw'n gwbl annibynnol mewn tai addas ar gyfer anghenion cyffredinol.

## Tystiolaeth o angen

28. Er mwyn cael sylfaen gadarn i wneud penderfyniadau ynghylch sut i fuddsoddi cyllid y Gronfa Tai â Gofal, mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ddatblygu a chynnal Cynllun ac Amcanion y Rhaglen. Dylai hyn adeiladu ar waith blaenorol o dan raglen gyfalaf y Gronfa Gofal Integredig. Dylai Cynllun ac Amcanion y Rhaglen nodi blaenoriaethau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol dros y pedair blynedd nesaf, gyda gwybodaeth fras am brosiectau y gellir eu dwyn ymlaen ym mlwyddyn pump os cadarnheir cyllideb yn y dyfodol.

29. Bydd y Cynllun ac Amcanion yn seiliedig ar y canlynol:

- y cyflenwad presennol o dai (nifer yr unedau o lety ar gyfer pob grŵp â blaenoriaeth);
- yr anghenion nas diwallwyd sy'n ofynnol (nifer yr unedau ar gyfer pob grŵp â blaenoriaeth dros y pedair mlynedd nesaf, er mwyn ymateb i bwysau demograffig; proffil iechyd poblogaeth sy'n newid; dileu'r angen am leoliadau y tu allan i'r sir/i'r wlad, y tu allan i ardal leol unigolyn o fewn yr un sir, a lleoliadau amhriodol eraill; a modelau gofal sy'n newid, e.e. symud o ofal preswyl i fyw'n annibynnol);
- y prosiectau sydd wedi'u cynllunio yn ystod y rhaglen bedair blynedd a fydd yn diwallu'r angen nas diwallwyd.

30. Bydd angen i Gynllun ac Amcanion Rhaglen y Gronfa Tai â Gofal ystyried y ffynonellau canlynol o dystiolaeth, pan gânt eu diweddaru:

- asesiadau o anghenion y boblogaeth, adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad, a Chynlluniau Ardal gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol.
- Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol gan awdurdodau lleol. Bydd canllawiau newydd ar Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol a gaiff eu cyhoeddi ar ddechrau 2022 yn gofyn am asesiad llawer manylach o anghenion tai grwpiau penodol. Dylid hefyd ystyried strategaethau tai sy'n deillio o'r Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol.
- Prosbectysau a Chynlluniau Datblygu Rhaglen awdurdodau lleol sy'n gosod blaenoriaethau buddsoddi awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig mewn tai cymdeithasol carbon isel ar rent.
- Data gweinyddol. Dylai fod cydweithio agos â gwasanaethau iechyd ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol y bydd ganddynt wybodaeth fanwl am anghenion carfanau penodol, e.e. pobl hŷn â dementia, pobl ifanc a chyflyrau niwroddatblygiadol (megis anabledd dysgu neu Gyflwr Sbectrwm Awtistig) sydd angen dychwelyd i fyw yn lleol neu a fydd yn symud i fyw fel oedolion â chymorth cyn bo hir o bosibl, neu bobl ifanc sy'n gadael gofal.

31. Disgwylir i ranbarthau ddiweddaru eu Cynlluniau a'u Hamcanion wrth i dystiolaeth newydd ddod i law. Rhaid cyflwyno fersiwn wedi'i diweddaru o'r Cynlluniau a'r Amcanion i Lywodraeth Cymru erbyn 30 Mehefin.  Bydd ceisiadau'r Gronfa Tai â Gofal yn cael eu hasesu am dystiolaeth o angen, felly mae'r Cynllunia ac Amcanion yn ddogfen bwysig i gefnogi ceisiadau.

## Cymunedau ymarfer

32. Bydd gan gymunedau ymarfer rôl hanfodol yn y gwaith o rannu'r hyn a ddysgir a helpu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ddatblygu modelau cenedlaethol o ofal integredig.

33. Bwriedir i bob model gofal integredig cenedlaethol gael ei gymuned ymarfer ei hun:

    - Gofal yn y gymuned: atal a chydlynu cymunedol
    - Gofal yn y gymuned: gofal cymhleth yn nes at adref
    - Hybu iechyd a llesiant emosiynol da
    - Helpu teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel, a chymorth therapiwtig i blant â phrofiad o fod mewn gofal
    - Gwasanaethau gartref o'r ysbyty
    - Atebion sy'n seiliedig ar lety

34. Bydd disgwyl i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol sy'n cael cyllid o'r Gronfa Tai â Gofal arwain y ffordd o ran cymryd rhan yn y gymuned ymarfer ar atebion sy'n seiliedig ar lety.

35. Caiff cymunedau ymarfer trawsbynciol ychwanegol eu sefydlu hefyd, er enghraifft cymuned ymarfer i archwilio rôl gofal gyda chymorth technoleg.

36. Bydd y cymunedau ymarfer hyn yn dechrau cwrdd yn gynnar yn 2022. Y cymunedau hyn fydd y cyfrwng a ddefnyddir i rannu enghreifftiau o arferion da, cymharu gwersi a ddysgir a phrofiadau, llywio'r pynciau yr ymdrinnir â nhw a chreu a phrofi adnoddau a deunyddiau y gellir eu rhannu'n ehangach ledled Cymru. Caiff y gweithdai eu harwain gan hwylusydd wedi'i gomisiynu a fydd yn rheoli'r trefniadau rhwydweithio gyda chymorth tîm o Lywodraeth Cymru.

# Rhan 2: Rheolaeth Ariannol

## Cyllideb a rheolaeth ariannol

37. Rhaglen gyfalaf pedair blynedd yw'r Gronfa Tai â Gofal, a bydd yn rhedeg o fis Ebrill 2022 tan ddiwedd mis Mawrth 2026. Bydd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cael dyraniad enwol bob blwyddyn ar sail fformiwla sy'n seiliedig ar asesiadau safonedig o anghenion iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion ym mhob rhanbarth. Gall Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddefnyddio hyd at 10% o'u dyraniad enwol ar brosiectau bach yn ôl eu disgresiwn.
38. Mae Gweinidogion Cymru wedi cytuno ar gyllideb o £60.5 miliwn ar gyfer tair blynedd cyntaf y rhaglen, dangosol ar gyfer blynyddoedd dwy a thair. Bydd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cael cadarnhad o'u dyraniad o'r gyllideb yn dilyn Cyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2022. Cytunir ar gyllid dangosol ar gyfer y bedwaredd flwyddyn (2025-26) yn y gyllideb ddrafft yn ystod hydref 2024.
39. Nid yw rheolau Trysorlys Llywodraeth y DU yn caniatáu i gyllid gael ei gario ymlaen o un flwyddyn ariannol i'r nesaf. Blaenoriaeth Llywodraeth Cymru fydd i sicrhau gwariant cyflawn ym mhob blwyddyn ariannol drwy gymeradwyo cynlluniau sy'n barod i fuddsoddi ynddynt. Rheolir cyllid rhanbarthol sydd heb ei ymrwymo a llithriant yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Dyma, yn fras, y dull a ddefnyddir ar gyfer y Rhaglen Grant Tai Cymdeithasol a Rhaglen Gyfalaf y GIG.
40. Er mwyn sicrhau y bydd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cael eu dyraniad cyllid llawn, dylai pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ystyried or-raglennu'n bwyllog a chynnal rhaglen o gynlluniau wrth gefn er mwyn sicrhau y byddant yn gwario'r holl arian dros gyfnod y rhaglen. Bydd angen i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol weithio'n agos gydag awdurdodau lleol a chymdeithasau tai i sicrhau cyflenwad o gynlluniau.
41. Byddwn yn anelu at, ond nid ydym yn gwarantu, y caiff pob rhanbarth ei ddyraniad cyllid llawn dros gyfnod o bedair blynedd y rhaglen. Dim ond os bydd rhanbarthau'n cynnal proffil buddsoddi cryf dros bedair blynedd y rhaglen y gellir sicrhau hyn. Efallai na fydd rhanbarthau sy'n tanfuddsoddi'n sylweddol ym mlynyddoedd cynnar y rhaglen yn gallu adennill cyllid yn y blynyddoedd diweddarach.
42. Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro lefelau o gyllid heb ei ymrwymo drwy gydol y flwyddyn. Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal cyfarfodydd monitro chwarterol gyda phob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn dilyn cyflwyno adroddiadau er mwyn adolygu ei sefyllfa gyllido a chynlluniau cyflenwi, ac i gytuno a ellir ailddyrannu cyllid i gynigion eraill ac, os felly, faint. Ystyrir bod cyllid wedi'i ymrwymo pan fydd ceisiadau wedi'u cymeradwyo. Mae'n bosibl y bydd achosion o lithro ac oedi yn golygu bod angen ailflaenoriaethu cyllid wedi'i ymrwymo, gan arwain at fwy o ymrwymiadau mewn blynyddoedd diweddarach a chael gwared ar ymrwymiadau yn y flwyddyn ariannol bresennol.

## Strwythur y Gronfa

43. Mae tair rhan i strwythur y Gronfa Tai â gofal. Mae’r adran nesaf yn rhoi mwy o fanylion am y math o gynlluniau a phrosiectau y gellir eu hariannu o dan bob pennawd.

i. **Amcan 1: tai â gofal**

Rhaid i gynlluniau Amcan 1 roi cyfrif am o leiaf 50% o'r gwariant ym mhob un o flynyddoedd y rhaglen ym mhob rhanbarth. Byddwn yn cynnwys trafodaeth am falans gwariant rhanbarth rhwng Amcan 1 ac Amcan 2 fel rhan o'r cyfarfodydd monitro chwarterol gyda phob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Pan fydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi cymeradwyo cynllun Amcan 1 am gyllid o'r Gronfa Tai â Gofal, yn dilyn cytundeb gyda’r sefydliad cyflawni, bydd yn rhaid i'r sefydliad cyflawni (awdurdod lleol neu Landlord Cymdeithasol Cofrestredig) gyflwyno'r cais yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru gan ddefnyddio prosesau gwneud cais ac asesu'r Grant Tai Cymdeithasol. Ceir rhagor o fanylion yn Adran 3.

Penderfynir ar lefel y cyllid grant gan Lywodraeth Cymru gan ddefnyddio’r Model Hyfywedd Safonol. Ar y cyfan, gall prosiectau'r Gronfa Tai â Gofal ddisgwyl derbyn mwy o arian na thai anghenion cyffredinol oherwydd y gofynion ychwanegol o ran lle ac arbenigedd.

Disgwylir i'r mwyafrif o brosiectau gael cyfuniad o gyllid o'r Gronfa Tai â Gofal a'r Grant Tai Cymdeithasol. Fel rheol, os bydd cyfuniad o gyllid o'r Gronfa Tai â Gofal a'r Grant Tai Cymdeithasol, bydd Llywodraeth Cymru yn pennu'r rhaniad cyllid fel a ganlyn: Y Gronfa Tai â Gofal 60%; Y Grant Tai Cymdeithasol 40%. Gellir amrywio’r gymhareb yn dibynnu ar hyd a lled y cyfleusterau arbenigol, cymunol neu gymunedol, er enghraifft.

Gellir gwneud cais i brosiectau gael cyllid o'r Gronfa Tai â Gofal yn unig hefyd. Dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fod yn ymwybodol y bydd hyn yn lleihau nifer y prosiectau y gallant eu cefnogi. Bydd hyn yn cyfyngu ar allu'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ddatblygu cyflenwad o brosiectau wrth gefn sy'n barod am fuddsoddiad, ac yn cynyddu'r risg y caiff cyllid ei ailddyrannu oherwydd llithriant.

ii. **Amcan 2: llety a gofal canolraddol**

Rhaid i gynlluniau Amcan 2 roi cyfrif am o leiaf 20% o'r gwariant ym mhob un o flynyddoedd y rhaglen ym mhob rhanbarth.

Gall Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gyflwyno ceisiadau i Lywodraeth Cymru, gydag un o aelodau’r Bwrdd yn gweithredu fel ‘bancer’. Os mai awdurdod lleol neu Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yw'r sefydliad cyflawni arweiniol, gall y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol benderfynu ei gwneud yn ofynnol i'r sefydliad cyflawni gyflwyno'r cais yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru, yn yr un modd â chynlluniau Amcan 1. Bydd hyn o fudd i’r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol am ei fod yn lleihau'r gofynion ariannol, gweinyddol a chyfreithiol, a'r gofynion monitro. Pan fydd y sefydliad cyflenwi yn Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, caniateir hefyd taliadau ymlaen llaw yn y cam adeiladu. Rydym

yn annog Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i fabwysiadu’r ail ddull o gyflwyno ceisiadau.

Oherwydd ystod ac amrywioldeb y prosiectau o dan Amcan 2, caiff ceisiadau eu hasesu a chaiff cyfraddau grant eu pennu fesul achos unigol.

iii. **Amcan 3: prosiectau bach**

Gall prosiectau bach gyfrif am uchafswm o 10% o ddyraniad enwol rhanbarth ym mhob un o flynyddoedd y rhaglen.

Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol sy'n gyfrifol am benderfynu sut i ddyrannu’r cyllid dewisol ar gyfer prosiectau bach yn eu rhanbarth. Caiff y cyllid grant ei roi i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, ac ni fydd angen i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gael cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau unigol, ac eithrio pan fydd cost y prosiect yn fwy na £100,000 pan fydd rhaid cael cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru. Y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol sy'n gyfrifol am reoli a monitro'r gronfa, a sicrhau mai dim ond i brosiectau sy'n bodloni meini prawf y gronfa ac sy'n sicrhau gwerth am arian y caiff gwariant ei ddyrannu. Rhaid i brosiectau sydd wedi cael eu cymeradwyo gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gael eu cynnwys yn y Cynllun Buddsoddi Cyfalaf rhanbarthol a chânt eu hystyried fel rhan o'r adolygiadau monitro chwarterol.

## Mathau o brosiectau a all gael eu cyllido

### Amcan 1: tai â gofal

44. Rhaid i dai a llety a gaiff eu cyllido drwy fuddsoddiadau Amcan 1 gael eu gosod fel tenantiaethau rhent cymdeithasol.

45. Mae'r mathau o brosiectau yr hoffai Llywodraeth Cymru fuddsoddi ynddynt yn cynnwys y canlynol, ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt:

- Tai gofal ychwanegol a mathau eraill o dai i bobl hŷn ag anghenion gofal a chymorth, gan gynnwys dementia. Mae'n debygol mai datblygiadau ar raddfa ganolig i raddfa fawr â rhwng 15 a 60 o unedau fydd y rhain. Bydd ganddynt ardaloedd a chyfleusterau cymunol, gweithgareddau cymdeithasol wedi'u trefnu, cefnogi pobl ag amrywiaeth o anghenion gofal a chymorth, a darpariaeth therapiwtig ar y safle. Gall y mathau hyn o fuddsoddiadau gael eu cydleoli â chyfleusterau a gwasanaethau eraill y bwriedir iddynt gael eu defnyddio gan y gymuned ehangach.
- Llety byw â chymorth i oedolion â chyflyrau niwroddatblygiadol, megis anabledd dysgu neu chyflyrau yn y sbectrwm awtistig, ynghyd ag anableddau corfforol o bosibl, sy'n gallu byw'n annibynnol gyda gofal a chymorth. Mae'n debygol mai datblygiadau ar raddfa fach â rhwng pedair a chwe uned fydd y mwyafrif o'r rhain, neu hyd at tua 10 o bryd i'w gilydd os bydd anghenion gofal a chymorth y preswylwyr yn llai dwys. Bydd rhai ardaloedd cymunol a chyfleusterau hygyrch ac, yn dibynnu ar anghenion y preswylwyr, bydd cyfleusterau priodol i staff iechyd, therapiwtig, gofal a chymorth eu defnyddio.

- Tai â chymorth i grwpiau eraill o bobl ag anghenion gofal a chymorth, er enghraifft oedolion â salwch meddwl neu bobl ifanc ag anghenion cymorth, megis y rhai hynny sy'n gadael gofal. Bydd maint y datblygiadau a nifer y cyfleusterau cymunol a chyfleusterau i staff gofal yn briodol i anghenion y preswylwyr.

46. Rydym yn annog cynigion arloesol, megis datblygiadau hybrid sy'n cynnwys unedau i denantiaid a lleoliadau gofal canolraddol, a datblygiadau cymhleth sy'n cydleoli unedau i denantiaid, megis tai gofal ychwanegol a byw â chymorth, ynghyd â chyfleusterau iechyd, cyfleusterau gofal cymdeithasol a chyfleusterau cymunedol eraill, a byddwn yn cefnogi cynigion o'r fath. Os ceisir cyllid o nifer o gynlluniau grant gan Lywodraeth Cymru, bydd yn hanfodol siarad â thîm y Gronfa Tai â Gofal yn gynnar.
47. Nid yw'r enghreifftiau uchod yn hollgynhwysfawr. Os ydych yn ansicr p'un a yw buddsoddiad posibl yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cyllid Amcan 1 y Gronfa Tai â Gofal ai peidio, cysylltwch â Llywodraeth Cymru cyn gynted â phosibl i gael cyngor ac arweiniad.
48. Dylid rhoi blaenoriaeth i ddatblygiadau sydd wrth wraidd y gymuned, sy'n agos at ganol trefi a gwasanaethau ac amwynderau hanfodol, ac sy'n rhan o gymunedau oedran cymysg a deiliadaeth gymysg. Yn ogystal, rhaid i ymgeiswyr ddangos eu bod wedi ystyried yr angen i ddatblygiadau fod yn hygyrch ar drafnidiaeth cyhoeddus, a bod ystyriaethau teithio llesol (e.e. cerdded, seiclo) wedi'u hymgorffori yn y dyluniad. Gweler Canllawiau Ddeddf Teithio Llesol | LLYW.CYMRU.
49. Fel gofyniad sylfaenol, rhaid i fuddsoddiadau Amcan 1 fodloni Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru 2021, neu'r gofynion fel y byddant wedi'u diwygio ar y pryd, sy'n gymwys i lety anghenion cyffredinol newydd ac wedi'i adnewyddu. Yn gyffredinol, dylid eu cynllunio yn unol â safonau tai hygyrch, a chydymffurfio â safonau megis ar gyfer y rhai sydd â golwg isel, nam gwybyddol a/neu anabledd corfforol, yn dibynnu ar anghenion preswylwyr.

### Amcan 2: llety a gofal canolraddol

50. Rhaid i fuddsoddiadau Amcan 2 gynnwys llety, ond gall yr ystod fod yn eang: o leoedd i welyau argyfwng i wasanaethau ailalluogi byrdymor a lleoliadau symud ymlaen tymor canolig. Ni fydd gan ddefnyddwyr gwasanaethau denantiaethau yn y lleoliadau hyn, a gaiff eu rheoli gan y prif ddarparwr gwasanaeth.
51. Mae'r mathau o brosiectau yr hoffai Llywodraeth Cymru fuddsoddi ynddynt o dan Amcan 2 y Gronfa Tai â Gofal yn cynnwys y canlynol, ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt:

    - Llety preswyl newydd ar raddfa fach (4-6 uned) ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion mwy dwys a/neu ymddygiad heriol er mwyn dod â phlant a phobl ifanc yn ôl o leoliadau y tu allan i'r ardal, neu osgoi lleoliadau o'r fath yn y lle cyntaf.
    - Llety tymor byr i dymor canolig ar gyfer oedolion ag anghenion mwy dwys a/neu heriau ymddygiadol er mwyn dod â nhw yn ôl o leoliadau y tu allan i'r ardal, neu osgoi lleoliadau o'r fath yn y lle cyntaf, gan gynnwys llety diogel.

- Lleoliadau gofal canolraddol yn y gymuned, e.e. cam i fyny/cam i lawr, fflatiau ailalluogi ac adsefydlu, lleoliadau hyfforddi a symud ymlaen, canolfannau asesu â gwelyau argyfwng neu fyrdymor ac ati.
- Lleoliadau seibiant byrdymor, ar gyfer gofalwyr a phobl sy'n cael gofal ac sydd ag amrywiaeth o anghenion, e.e. dementia, salwch meddwl, cyflyrau niwroddatblygiadol ac anableddau corfforol.

52. Yn yr un modd â buddsoddiadau Amcan 1, rydym yn annog cynigion arloesol a byddwn yn cefnogi cynigion o'r fath.

53. Nid yw'r enghreifftiau uchod yn hollgynhwysfawr. Os ydych yn ansicr p'un a yw buddsoddiad posibl yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cyllid Amcan 2 y Gronfa Tai â Gofal ai peidio, cysylltwch â Llywodraeth Cymru cyn gynted â phosibl i gael cyngor ac arweiniad.

54. Dylai cynigion Amcan 2 nodi ffynhonnell y ddarpariaeth o staff iechyd, gofal neu therapiwtig (adsefydlu) er mwyn gwneud y lleoliadau'n effeithiol ac yn ymarferol, gan gynnwys gwneud y mwyaf o allu pobl i aros yn annibynnol tra byddant mewn gofal canolraddol neu ofal seibiant.

55. Rhaid i fuddsoddiadau Amcan 2 fod mewn lleoliadau yn y gymuned. Gallant fod ynghlwm wrth ddatblygiadau tai a llety eraill neu gyfleusterau neu hybiau darparu gwasanaethau, neu'n agos atynt. Ni all y Gronfa Tai â Gofal gefnogi buddsoddiadau Amcan 2 ar gyfer y mathau hyn o leoliadau mewn ysbytai neu gartrefi nyrsio.

56. Er y bydd Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru 2021 yn gymwys i rai mathau o fuddsoddiadau Amcan 2 ond nid pob un ohonynt, byddwn yn disgwyl i'r prosiectau hyn fod wedi'u dylunio i safon uchel a hygyrch sy'n diwallu anghenion iechyd a gofal defnyddwyr arfaethedig y gwasanaethau, y bydd defnyddwyr y gwasanaethau wedi cael eu cynnwys yn y broses o ddylunio a datblygu'r prosiectau, ac y bydd y lleoliadau'n cyrraedd safonau Arolygiaeth Gofal Cymru ar gyfer lleoliadau rheoleiddiedig, lle bo angen. Rhaid iddynt hefyd gyrraedd safonau adeiladu uchel, gan gynnwys cyflawni amcanion datgarboneiddio Llywodraeth Cymru. Rhaid i'r darparwr tai nodi'r safon ansawdd tai berthnasol yn glir ar gyfer pob prosiect ar y dechrau.

### Amcan 3: prosiectau bach

57. Gall prosiectau bach gael effaith sylweddol ac arwain at fanteision anghymesur o gymharu â'u costau. Y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol fydd yn penderfynu sut y caiff cyllid ar gyfer prosiectau Amcan 3 ei ddefnyddio, cyn belled ag y gellir dangos bod prosiectau a ariennir yn cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni nodau ac amcanion y Gronfa Tai â Gofal.

58. Gall Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddewis buddsoddi yn y mathau canlynol o brosiectau, ond dim ond enghreifftiau yw'r rhain:

    - gwaith atgyweirio, adnewyddu a gwella ar dai â gofal neu leoliadau gofal canolraddol sydd eisoes yn bodoli;
    - cyfarpar ac addasiadau i gartrefi sydd eisoes yn bodoli na chânt eu cefnogi gan grantiau addasiadau eraill gan Lywodraeth Cymru (megis storfeydd ar

gyfer cerbydau symudedd a chadeiriau olwyn), gan gynnwys helpu i dalu cost Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl dros yr uchafswm statudol o £36,000;

- prosiectau eraill ar raddfa lai sy'n helpu i gyflawni amcanion y Gronfa Tai â Gofal, e.e. prosiectau dan arweiniad y gymuned neu'r trydydd sector;
- cymhorthion digidol, technolegau monitro a thechnolegau cynorthwyol.

59. Ni ellir defnyddio cyllid Amcan 3 y Gronfa Tai â Gofal ar gyfer y canlynol:

- prynu cerbydau
- addasu neu wella seilwaith technoleg analog a'i droi'n ddigidol

60. Anogir Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i fabwysiadu dull hyblyg o reoli grantiau, yn arbennig pan fydd cyflymder ymateb yn ffactor allweddol.

61. Rhaid ceisio cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau sy'n costio mwy na £100,000. Lle y bydd y costau'n fwy na £100,000, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi cyngor p'un ai a oes angen pridiant cyfreithiol a/neu gyfyngiadau, er enghraifft, pan fuddsoddir arian mewn eiddo.

### Astudiaethau dichonoldeb

62. Rhaid i'r costau paratoi a datblygu ar gyfer cynlluniau adeiladu neu adnewyddu newydd o dan Amcan 1 ac Amcan 2, yn cynnwys astudiaethau dichonoldeb, gael eu hadennill fel rhan o gostau'r cynllun.

63. Dim ond os gallant ddangos gwerth ychwanegol sylweddol ac os byddant yn uniongyrchol gysylltiedig â chynigion buddsoddi cyfalaf newydd y byddwn yn helpu i dalu costau astudiaethau dichonoldeb annibynnol, e.e. cyfraniad at ddatblygu uwchgynllun ar gyfer safle neu ardal a allai gynnwys adfywio economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ac sy'n cynnwys un neu fwy o gynigion ar gyfer buddsoddiadau a fyddai'n gymwys i gael cyllid o'r Gronfa Tai â Gofal.

64. Ni allwn gyllido astudiaethau dichonoldeb sy'n ymwneud yn bennaf â chynlluniau refeniw i ad-drefnu neu ddiwygio gwasanaethau.

## Rhoi adnoddau i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol reoli'r Gronfa Tai â Gofal

65. Rhaid bod gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol yr adnoddau ("adnoddau rhaglen") i reoli rhaglen y Gronfa Tai â Gofal, gan gynnwys mynediad at staff sy'n arbenigo mewn comisiynu a rheoli portffolio o brosiectau cyfalaf. Mae'r adnodd hwn yn ychwanegol at y gwariant ar arbenigedd proffesiynol a ysgwyddir fel rhan o brosiectau unigol y mae'n rhaid eu hadennill fel rhan o gostau'r prosiect.

66. Gan nad yw'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn gallu cyflogi staff yn uniongyrchol, rhaid i aelodau'r Bwrdd gytuno pa bartner neu bartneriaid fydd yn gweithredu fel y cyflogwr. Rydym yn annog ariannu adnoddau rhaglen ar y cyd ar draws rhaglenni cyfalaf y Gronfa Tai â Gofal a'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol.

67. Gall Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol hawlio cyllid o'r Gronfa Tai â Gofal i dalu am gostau adnoddau rhaglen. Rhaid cyfalafu costau adnoddau'r rhaglen fel

argostau ychwanegol i gynlluniau y mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn eu cyllido. Yr uchafswm y gellir ei godi dros bedair blynedd y Gronfa Tai a Gofal fel costau adnoddau rhaglen Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yw 3% o ddyraniad Bwrdd ar gyfer y Gronfa Tai â Gofal.  Rhaid i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol gyflwyno gwybodaeth ar ddefnydd adnoddau rhaglen cyn y cyfarfodydd monitro chwarterol gyda Llywodraeth Cymru. Bydd yr uchafswm o 3% yn cael i adolygu ar ddiwedd ail flwyddyn y rhaglen (Mawrth 2024).

## Cynllun Buddsoddi Cyfalaf

68. Mae'r Cynlluniau Buddsoddi Cyfalaf yn adnodd monitro hanfodol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Llywodraeth Cymru, gan ddarparu gwybodaeth allweddol am gynlluniau, cyllid a'r amserlenni ar gyfer cyflawni blaenoriaethau strategol Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'n ofynnol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddiweddaru eu Cynllun Buddsoddi Cyfalaf wrth i brosiectau gael eu cymeradwyo ac wrth i gyllid grant gael ei dalu. Rhaid i'r Cynllun gael ei ddiweddaru'n ffurfiol a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru cyn pob cyfarfod chwarterol gyda Llywodraeth Cymru.

69. 66.69. Mae'r Cynllun Buddsoddi Cyfalaf yn cynnwys cofrestr risg i gofnodi a monitro risgiau, risgiau ar lefel rhaglen (fel capasiti'r sector adeiladu neu ffosffadau) a risgiau prosiect. Rhaid i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddefnyddio'r gofrestr risg i godi rhybudd cynnar neu faner goch gyda Llywodraeth Cymru os oes gan brosiect risgiau cynyddol neu annisgwyl, naill ai drwy'r cyfarfodydd chwarterol gyda Llywodraeth Cymru neu'n gynharach drwy ohebiaeth yn unol ag amgylchiadau.

70. Dylai'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ddatblygu'r Cynllun Buddsoddi Cyfalaf drwy ymgynghori â phartneriaid rhanbarthol. Dylai'r Cynllun Buddsoddi Cyfalaf nodi:

    a) <u>cynlluniau sy'n mynd rhagddynt:</u> mae cais wedi cael ei gymeradwyo, ac mae'r gwaith wedi dechrau neu ar fin dechrau;
    b) <u>cynlluniau wrth gefn:</u>  cynlluniau sy'n cael eu datblygu ymhellach, gan ddisgwyl yn llawn y caiff cais ei gyflwyno, gydag amserlen amcangyfrifedig ar gyfer cyflwyno'r cais hwnnw;
    c) <u>cynlluniau posibl:</u> cynlluniau sydd ar gam cynnar neu sydd heb flaenoriaeth ar hyn o bryd ond a all gael eu cyflwyno yn nes ymlaen;
    d) <u>prosiectau bach</u>: pob prosiect y mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn ei gefnogi â'i wariant Amcan 3 ar brosiectau bach.

## Prosiectau etifeddol

71. Bydd angen i'r Cynllun Buddsoddi Cyfalaf gynnwys unrhyw gynlluniau a ddygwyd ymlaen (“prosiectau etifeddol”) o raglen gyfalaf y Gronfa Gofal Integredig. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau sydd ar droed ac unrhyw gyllid a gariwyd ymlaen drwy drefniadau rheoli'r rhaglen ac unrhyw gyfraniad arian cyfatebol.

72. Bydd prosiectau etifeddol sydd ar y gweill yn parhau i gael eu trin o dan delerau ac amodau'r llythyr dyfarnu grant gwreiddiol. Os bydd prosiectau a etifeddwyd ar y gweill angen rhagor o arian arnynt cyn eu cwblhau, ni fyddant yn cael eu hailasesu o dan y canllawiau hyn, oni bai bod Llywodraeth Cymru yn credu bod

rhesymau cymhellol dros wneud hynny e.e. mae'r cynllun wedi newid yn sylweddol.

73. 73. Lle mae'r Gronfa Gofal Integredig wedi cefnogi gwaith cyfnod cynnar a bod y cyllid hwnnw yn cael ei wario'n llawn neu fod cynlluniau ond wedi cael eu cymeradwyo mewn egwyddor o dan y Gronfa Gofal Integredig ond nad yw'r cynllun wedi symud ymlaen eto i gaffael eiddo a/neu adeiladu, bydd angen gwneud cais am gymeradwyaeth ariannol yn dilyn y canllawiau hyn.

74. Bydd prosiectau a ariennir gan y Gronfa Gofal Integredig lle cytunwyd ar drefniadau rheoli rhaglenni yn cael eu hasesu fel rhan o’r cyfarfodydd monitro chwarterol, a chytunir ar gynllun ar gyfer y cyllid a reolir gan y rhaglen, yn dibynnu ar sut mae pob prosiect yn mynd rhagddo. Bydd cyllid a reolir gan y rhaglen ar gyfer cynlluniau nad ydynt yn symud ymlaen i'r cam caffael eiddo neu adeiladu yn 2022-23 yn cael ei adfachu a'i reoli'n ganolog fel cyllid y Gronfa Tai â Gofal gan Lywodraeth Cymru.

# Rhan 3: Cyflawni'r Rhaglen

## Trosolwg

75. Gall y broses o gyflawni'r rhaglen gynnwys rhai o'r camau canlynol neu bob un ohonynt:

- Craffu technegol ar y cam cysyniad a'r cam cyn cynllunio
- Cymeradwyo a dyfarnu'r prosiect
- Talu grant
- Craffu technegol yn yr adolygiad ar ôl cwblhau

76. Dylai swyddogion Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol sy'n gweinyddu'r Gronfa Tai â Gofal ymgyfarwyddo â Grant Tai Cymdeithasol: canllawiau i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac awdurdodau lleol. Bydd angen darllen y ddogfen hon (neu fersiynau diwygiedig o'r ddogfen yn y dyfodol) ochr yn ochr â chanllawiau'r Gronfa Tai â Gofal.

## Rolau a chyfrifoldebau

### Llywodraeth Cymru

77. Caiff cynlluniau Amcan 1 sy'n cael cyllid o'r Gronfa Tai â Gofal yn unig, yn ogystal â chynlluniau a phrosiectau Amcan 2 a 3 eu gweinyddu gan dîm y Gronfa Tai â Gofal.

78. Caiff cynlluniau Amcan 1 sy'n cael cyllid o'r Gronfa Tai â Gofal a'r Grant Tai Cymdeithasol eu gweinyddu ar y cyd gan dîm y Gronfa Tai â Gofal a'r tîm Cyllid Tai.

79. Bydd pob cynllun amcan 1 yn destun craffu technegol gan dîm y Safonau Ansawdd Tai, un unol â chanllawiau ar broses sefydlog y Grant Tai Cymdeithasol. Mae tîm y Safonau Ansawdd Tai yn gyfrifol am wneud y canlynol:

- Adolygu pob cynllun ar y camau cysyniad a chyn cynllunio.
- Cydweithio â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod sylwadau dylunio yn cael eu hystyried.
- Cydweithio â thîm y Gronfa Tai â Gofal a'r tîm Cyllid Tai er mwyn sicrhau na chaiff unrhyw geisiadau ar y cam adeiladu eu prosesu cyn i'r dyluniad gael ei gymeradwyo (cyn cynllunio).
- Cynnal adolygiadau ar ôl cwblhau a bwrw golwg dros adroddiadau adolygiadau ar ôl cwblhau.

80. Mae tîm y Gronfa Tai â Gofal yn gyfrifol am wneud y canlynol:

- Adolygu Cynlluniau Buddsoddi Cyfalaf a chydweithio â Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

- Cydweithio â'r tîm Cyllid Tai a thîm y Safonau Ansawdd Tai, yn ogystal â thimau Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a meysydd polisi eraill o fewn Llywodraeth Cymru.
- Gwirio a phrosesu ceisiadau cymeradwyo cynllun a hawliadau grant.
- Cydweithio ag ymgeiswyr lle mae ceisiadau'n anghyflawn neu'n ymddangos yn anghywir.
- Dyfarnu canran cyllid pob cynllun o'r Gronfa Tai â Gofal a Grant Tai Cymdeithasol.
- Cymeradwyo cynlluniau drwy roi llythyrau dyfarnu grant a thalu grantiau.
- Gwirio dogfennaeth mewn ffeiliau adolygu ar hap.
- Monitro Cynlluniau Buddsoddi Cyfalaf a cheisiadau er mwyn sicrhau bod arian grant yn cael ei dalu'n brydlon.
- Monitro'r broses o gwblhau cynlluniau er mwyn sicrhau bod canlyniadau a buddion yn cael eu cofnodi a bod adroddiadau adolygiadau ar ôl cwblhau yn dod i law.

81. Dylai unrhyw ddogfennaeth craffu technegol, ceisiadau cymeradwyo cynllun a hawliadau grant sy'n gysylltiedig â chynlluniau a gaiff eu cyllido drwy'r Gronfa Tai â Gofal gael eu hanfon yn electronig i Flwch Negeseuon E-bost y Gronfa Tai â Gofal:

    CTG@llyw.cymru

82. Gofynnir i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, Byrddau Iechyd Lleol, awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig nodi enw'r cynllun yn glir yn nheitl yr e-bost a'r math o ohebiaeth e.e. "[Cyfeirnod XXX] – Gofal Ychwanegol 1 – Cam Cysyniad", "[Cyfeirnod XXX] – Gofal Ychwanegol 1 – Cais Adeiladu", "[Cyfeirnod XXX] – Gofal Ychwanegol 1 – Caffaeliad a Hawliad Grant ar y Cyd".

**Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol**

83. Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn gyfrifol am y canlynol:
    - Rheoli a chynnal y Cynllun Buddsoddi Cyfalaf rhanbarthol, a chynllunio cyfalaf strategol rhanbarthol ehangach er mwyn manteisio i'r eithaf ar y synergedd rhwng y Gronfa Tai â Gofal a'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol.
    - Cymeradwyo cynlluniau Amcan 1 a 2 cyn i geisiadau gael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru.
    - Cymeradwyo ac ymrwymo cyllid i gynlluniau Amcan 3, ceisio cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau gwerth dros £100,000, a monitro'r broses gyflawni.
    - Cadw Cofnod Penderfyniadau i gofnodi penderfyniadau gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.
    - Cyflwyno ceisiadau am gymeradwyaeth a hawliadau grant (ac eithrio cynlluniau Amcan 1, a chynlluniau Amcan 2 os yw'r Bwrdd Partneriaeth

Rhanbarthol yn penderfynu mai’r sefydliad cyflawni ddylai wneud y cais, gweler paragraff 116 isod).

- Cydweithio â Llywodraeth Cymru, sefydliadau cyflawni, rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaethau.
- Sicrhau bod cynlluniau cyfalaf y Gronfa Tai â Gofal yn gynaliadwy ac yn cael eu cefnogi gan wasanaethau refeniw priodol.
- Sicrhau y caiff rhwymedigaethau pridiant cyfreithiol a chyfyngiadau eu cyflawni a'u cofnodi'n brydlon.
- Cofnodi, monitro a chynyddu risgiau.
- Monitro gwerth am arian ac adrodd ar ganlyniadau a buddiannau.

### Sefydliadau cyflawni

84. Mae awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (“sefydliadau cyflawni”) sy'n cynnal cynlluniau Amcan 1 yn gyfrifol am wneud y canlynol:

- Cydweithio â Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, Llywodraeth Cymru ac eraill, fel y bo'n briodol.
- Sicrhau cytundeb ysgrifenedig oddi wrth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i ymrwymo cyllid y Gronfa Tai â Gofal. Bydd angen i awdurdodau lleol gymeradwyo ceisiadau am gynlluniau yn eu Cynlluniau Datblygu Rhaglen sy’n ceisio cyfuniad o gyllid o’r Gronfa Tai a Gofal a’r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol.
- Cyflwyno cynlluniau ar gyfer gwaith craffu technegol ar y cam cysyniad a'r cam cyn cynllunio, cydymffurfio ag argymhellion y tîm Safonau Ansawdd Tai, gan gynnwys gofynion ar ôl cwblhau.
- Cyflwyno ceisiadau am gymeradwyaeth a hawliadau grant a rhoi'r holl dystiolaeth ategol sy'n ofynnol.
- Rhoi pridiannau cyfreithiol a chyfyngiadau priodol ar waith.
- Monitro, cofnodi a chynyddu risgiau.
- Monitro cynlluniau'n barhaus er mwyn sicrhau gwerth am arian

## Cynigion cynnar

85. Nid ydym yn dymuno i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddatblygu cynlluniau posibl sy'n annhebygol o gael eu cymeradwyo ar gyfer cyllid grant o'r Gronfa Tai â Gofal.

86. Efallai y bydd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn ansicr a yw cynllun arfaethedig yn bodloni meini prawf buddsoddi'r Gronfa Tai â Gofal. Dylai'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gyflwyno amlinelliad o'r cynnig i Lywodraeth Cymru cyn gynted â phosibl. Dylid gwneud hyn ar gyfer cynigion Amcan 1 drwy gyfnewid gohebiaeth. Ar gyfer cynigion Amcan 2, dylid cyflwyno cais Rhan 1. Bydd tîm y Gronfa Tai â Gofal yn asesu'r cynllun i weld a yw'n bodloni meini prawf

buddsoddi'r Gronfa Tai â Gofal a nodir yn Rhannau 1 a 2 uchod a rhoi cyngor clir i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

87. Hefyd, mae'n bosibl yr hoffai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a phartneriaid cyflawni asesu cynlluniau posibl o ran eu hyfywedd ariannol yn gynnar yn y broses. Gellir defnyddio adnodd y Model Hyfywedd Safonol ‘all-lein’, gan ddefnyddio costau amcangyfrifedig, er mwyn cael syniad o'r gyfradd grant debygol. Bydd hyn yn helpu sefydliadau cyflawni i benderfynu a yw'r cyfuniad o grant cyfalaf ac incwm rhent yn y dyfodol yn rhoi digon o sicrwydd i fod yn sail i'r benthyca masnachol neu'r math arall o fenthyca y bydd ei angen i wneud y cynllun yn hyfyw. Er y gall Llywodraeth Cymru newid y gyfradd grant a gyfrifir gan y Model Hyfywedd Safonol, dim ond dan rai amgylchiadau y byddwn yn arfer yr hyblygrwydd hwn.

88. Mae’r ffurflen gais ar gyfer cynlluniau Amcan 1 y Gronfa Tai â Gofal a Grant Tai Cymdeithasol yn cynnwys rhagor o wybodaeth am y Model Hyfywedd Safonol a'r rhagdybiaethau y mae'n seiliedig arnynt. .

## Amcan 1 y Gronfa Tai â Gofal: craffu technegol, cymeradwyo a thalu grant

89. Mae'r adran hon yn egluro'r camau y mae'n rhaid i ymgeiswyr eu cymryd er mwyn i Lywodraeth Cymru gymeradwyo cynlluniau Amcan 1 a sut i hawlio grant. Mae'n egluro diben pob cam ac yn cadarnhau'r wybodaeth y mae angen i ymgeiswyr ei chyflwyno er mwyn cael grant caffael ac adeiladu.

90. Disgwylir i bob cynllun Amcan 1 gael ei gyflwyno i'w gymeradwyo ar y cam cysyniad a chyn cynllunio oni fydd Llywodraeth Cymru yn penderfynu fel arall. Bydd pob cynllun wedi cael ei gymeradwyo ar y cam cyn cynllunio beth bynnag. Gwneir hyn er mwyn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn fodlon ar y dyluniad a'i fod yn bodloni gofynion y trigolion posibl a Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru 2021.

91. Rhaid i gynlluniau preswyl gofal ychwanegol fodloni gofynion ar gyfer achrediad y Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BREEAM). Dylai cynlluniau dargedu’r un lefelau a nodir ar gyfer Datblygiadau Amhreswyl ar sail arwynebedd llawr drwy’r ddolen yma: Safonau adeiladu cynaliadwy | LLYW.CYMRU

92. Mae rhagor o wybodaeth am y camau craffu technegol a'r gofynion manwl i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac awdurdodau lleol i'w gweld yn Grant Tai Cymdeithasol: canllawiau i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac awdurdodau lleol.

93. Pan fydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi ystyried a chymeradwyo cynnig am gais am grant, rhaid cofnodi hyn ar y Cynllun Buddsoddi Cyfalaf a rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru.

94. Wedyn, gall y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol awdurdodi'r awdurdod lleol neu'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig sy'n gyfrifol am gyflawni'r prosiect i wneud cais gan ddefnyddio proses gwneud cais gymeradwy'r Grant Tai Cymdeithasol. Bydd hyn yn sicrhau bod yr un prosesau gwneud cais, asesu a chymeradwyo yn gymwys i brosiectau'r Grant Tai â Gofal a'r Grant Tai Cymdeithasol.

95. Rhennir y broses o gymeradwyo grant y Gronfa Tai â Gofal a thalu'r grant yn ddwy ran:

- Caffael (cymeradwyaeth a thalu)
- Adeiladu (cymeradwyaeth a thalu)

96. Bydd angen i bob cynllun lle y caiff tir neu eiddo ei brynu gael cymeradwyaeth caffael ac adeiladu. Bydd angen i gynlluniau lle mae'r ymgeisydd eisoes yn berchen ar y tir neu'r eiddo gael cymeradwyaeth adeiladu yn unig. Gellir gwneud cais am gymeradwyaeth ar wahân neu ar yr un pryd yn dibynnu ar amgylchiadau unigol y cynllun.

97. Gellir gwneud cais caffael i gymeradwyo cynllun cyn, yn ystod neu ar ôl camau cysyniad a chyn cynllunio'r broses Craffu Technegol. Nid oes angen cael cymeradwyaeth Craffu Technegol er mwyn cael cymeradwyaeth grant caffael (ac eithrio yn achos caffael adeilad sydd eisoes yn bodoli) na thaliad grant adeiladu. Fodd bynnag, os cyflwynir cyn y cam cysyniad neu os cyflwynir y cynllun ar gyfer y cam cyn cynllunio yn unig, bydd angen rhoi esboniad. Mae Llywodraeth Cymru yn cadw'r hawl i dynnu cymeradwyaeth caffael yn ôl os bydd o'r farn bod cyflwyniad neu gyfarfod craffu technegol yn briodol.

98. Yn dilyn cymeradwyaeth caffael, gall ymgeiswyr gyflwyno hawliad am grant caffael. Dim ond yn electronig y gellir cyflwyno ceisiadau. Bydd angen tystiolaeth o deitl cyn y caiff grant caffael ei dalu. Nid oes angen cyflwyno dogfennau gwreiddiol wedi'u llofnodi ond dylid eu cadw yn ffeil yr adolygiad ar ôl cwblhau.

99. Dim ond ar ôl cael cymeradwyaeth cyn cynllunio ac ar ôl i'r cynllun gael ei gaffael y gellir gwneud cais adeiladu i gymeradwyo cynllun. Y costau adeiladu a nodir yn y cais fydd y swm a ardystiwyd yn adroddiad costau'r ymgynghorydd heb gynnwys unrhyw gostau nad ydynt yn gymwys.

100. Bydd angen tystiolaeth o ganiatâd cynllunio manwl a chontract adeiladu wedi'i lofnodi cyn y caiff cymeradwyaeth adeiladu ei rhoi.

101. Yn dilyn cymeradwyaeth adeiladu, gall ymgeiswyr gyflwyno hawliadau am grant adeiladu. Dim ond yn electronig y gellir cyflwyno ceisiadau. Nid oes angen cyflwyno dogfennau gwreiddiol wedi'u llofnodi ond dylid eu cadw ar ffeil at ddibenion adolygiad yn y dyfodol.

102. I'r sefydliad cyflawni y caiff y grant ei dalu. Dim ond ar ffurf ôl-daliad y caiff y grant ei dalu i awdurdodau lleol. Gellir talu'r grant i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ymlaen llaw (yn llawn neu mewn dau randaliad neu fwy, ac yn ddarostyngedig i rai amodau penodol) ar y cam adeiladu, ond nid ar y cam caffael.

103. Rhaid i'r Cynllun Buddsoddi Cyfalaf gael ei ddiweddaru pan fydd cynllun wedi cael cymeradwyaeth caffael ac adeiladu, pan gaiff grant ei dalu ar y camau caffael ac adeiladu, a phan gaiff y cynllun ei gwblhau.

104. Mae gwybodaeth fanwl am y prosesau i'w dilyn i gyflwyno ceisiadau am gymeradwyaeth, y ddogfennaeth y bydd ei hangen ar wahanol gamau, a chyflwyno hawliadau grant i'w gweld yn Grant Tai Cymdeithasol: canllawiau i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac awdurdodau lleol.

**Amcan 1: amserlenni ar gyfer ceisiadau a hawliadau**

105. Gellir cyflwyno ceisiadau i gymeradwyo cynlluniau (caffael ac adeiladu) a hawliadau grant ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn.

106. Bydd y terfynau amser canlynol yn gymwys ar gyfer ceisiadau i gymeradwyo cynlluniau a hawliadau am grant yn chwarter olaf y flwyddyn ariannol:

| Cais | Terfyn amser |
|---|---|
| Cais Caffael ac Adeiladu | 31 Ionawr neu ddiwrnod gwaith olaf y mis os yw'r 31 ar benwythnos |
| Hawliadau grant | 28/29 Chwefror neu ddiwrnod gwaith olaf y mis os yw'r 28/29 ar benwythnos |

107. Os na fodlonir y terfynau amser hyn gallai olygu na chaiff eich cais ei adolygu ac y caiff y cyllid ei symud i gynllun arall. Gall fod oedi hir cyn talu hawliadau hwyr.

## Amcan 2 y Gronfa Tai â Gofal: cyngor technegol, cymeradwyo a thalu grant

**Amcan 2: gwneud cais a chael cymeradwyaeth**

108. Nid yw proses gwneud cais ac asesu'r Grant Tai Cymdeithasol yn gymwys i gynlluniau Amcan 2 (ond gweler 116 isod). Ar gyfer cynlluniau Amcan 2, bydd angen dilyn proses gwneud cais a chael cymeradwyaeth dau neu dri cham, yn dibynnu ar y math o gynllun.

109. Dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol roi eu prosesau mewnol eu hunain ar waith i arfarnu a chymeradwyo prosiectau cyn iddynt gael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru. Dylai cymeradwyaeth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gael ei chofnodi ar y ffurflen gais, ar gofnod penderfyniadau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ac ar y Cynllun Buddsoddi Cyfalaf.

110. Ar gam cyntaf y broses gwneud cais, caiff egwyddorion y prosiect, disgrifiad ohono ac amcangyfrif o'r costau eu nodi. Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi cymeradwyaeth ‘mewn egwyddor’ i'r cynllun ar y cam hwn, gan gadarnhau bod y cynllun yn bodloni meini prawf y Gronfa Tai â Gofal ar gyfer buddsoddi, yn amodol ar gais llawn. Ar y cam hwn, gall Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd gyflwyno manylion technegol y cynllun a rhaid iddi ystyried y cyngor yn argymhellion tîm y Safonau Ansawdd Tai.

111. Cais am gymeradwyaeth caffael yw ail gam y broses, os yw hyn yn berthnasol. Bydd angen prisio'r tir neu'r eiddo cyn rhoi cymeradwyaeth. Yn dilyn cymeradwyaeth, gall ymgeiswyr gyflwyno hawliad am grant. Dim ond yn electronig y gellir cyflwyno ceisiadau. Bydd angen tystiolaeth o deitl cyn y caiff grant Caffael ei dalu. Nid oes angen cyflwyno dogfennau gwreiddiol wedi'u llofnodi ond dylid eu cadw yn ffeil yr adolygiad ar ôl cwblhau.

112. Cais am gymeradwyaeth Adeiladu yw trydydd cam y broses. Dim ond ar ôl i ganiatâd cynllunio gael ei roi ac ar ôl i'r cynllun gael ei gaffael y gellir gwneud cais am gymeradwyaeth Adeiladu. Y costau adeiladu a nodir yn y cais fydd y swm a ardystiwyd yn adroddiad costau'r ymgynghorydd heb gynnwys unrhyw gostau nad ydynt yn gymwys.

113. Bydd angen tystiolaeth o ganiatâd cynllunio manwl a chontract adeiladu wedi'i lofnodi cyn y caiff cymeradwyaeth Adeiladu ei rhoi.

114. Yn dilyn cymeradwyaeth Adeiladu, gall ymgeiswyr gyflwyno hawliadau grant. Dim ond yn electronig y gellir cyflwyno ceisiadau. Nid oes angen cyflwyno dogfennau gwreiddiol wedi'u llofnodi ond dylid eu cadw ar ffeil at ddibenion adolygiad yn y dyfodol.

115. Pan fydd cais am grant Caffael neu Adeiladu ar gyfer cynllun Amcan 2 wedi'i gymeradwyo, bydd Llywodraeth Cymru yn anfon llythyr dyfarnu grant o blaid 'banciwr' enwebedig y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Nid yw Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn gorff corfforaethol felly ni all ddal arian na chyflogi pobl. Oni bai bod Llywodraeth Cymru yn anfon llythyr dyfarnu grant yn uniongyrchol at y sefydliad cyflenwi, rhaid i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol enwebu un o'i aelodau i weithredu fel 'banciwr' i reoli cyllid ar ei ran. Y banciwr sy'n derbyn y llythyr dyfarnu grant ac mae'n ddarostyngedig i'r cyfrifoldebau a'r rhwymedigaethau cyfreithiol a roddir gan y llythyr.

116. Gall Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ddewis y dylai'r sefydliad cyflawni, os yw'n awdurdod lleol neu Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, gyflwyno'r cais am gynllun Amcan 2 yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru. Gall hyn leihau'r angen i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'i fanciwr weithredu fel canolwr rhwng y sefydliad cyflawni a Llywodraeth Cymru, gan symleiddio'r gwaith gweinyddol ariannol a chyfreithiol. Os yw'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn penderfynu defnyddio'r disgresiwn hwn gyda chytundeb y sefydliad cyflawni, rhaid rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru a chofnodi'r wybodaeth ar gofnod penderfyniadau a'r Cynllun Buddsoddi Cyfalaf.

117. Gellir cyflwyno ceisiadau ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn ariannol, heblaw'r chwarter olaf pan fydd yn rhaid i geisiadau ddod i law erbyn 31 Ionawr neu ddiwrnod gwaith olaf y mis os bydd y 31 ar benwythnos

118. Gellir cyflwyno hawliadau ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn ariannol, heblaw'r chwarter olaf pan fydd yn rhaid i hawliadau ddod i law erbyn 28/29 Chwefror neu ddiwrnod gwaith olaf y mis os bydd yr 28/29 ar benwythnos

119. Rhaid i'r Cynllun Buddsoddi Cyfalaf gael ei ddiweddaru pan fydd cynllun Amcan 2 wedi cael cymeradwyaeth, pan gaiff grant ei dalu ar y camau caffael ac adeiladu, a phan gaiff y cynllun ei gwblhau.

**Pridiannau a chyfyngiadau cyfreithiol**

120. Bydd cynlluniau Amcan 1 a 2 sy'n derbyn mwy na £100,000 o arian y Gronfa Tai â Gofal yn destun pridiannau a/neu gyfyngiadau cyfreithiol. Atodir ffurf y pridiant neu gyfyngiad cyfreithiol i'r Llythyr Dyfarnu Grant.

121. Bydd cynlluniau Amcan 3 sy'n gysylltiedig ag eiddo ac sy'n derbyn mwy na £100,000 o arian y Gronfa Tai â Gofal hefyd o bosibl yn destun pridiannau a/neu

gyfyngiadau cyfreithiol. Yn yr achosion hyn, rhaid i chi ofyn i Lywodraeth Cymru am gyngor.

122. Os telir arian y Gronfa Tai â Gofal yn uniongyrchol i Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, rhaid gosod pridiant a chyfyngiad cyfreithiol ar y tir neu'r eiddo a brynir ar y cam caffael o blaid Gweinidogion Cymru. Os yw'r ymgeisydd eisoes yn berchen ar yr eiddo, rhaid i'r pridiant a'r cyfyngiad cyfreithiol gael ei osod ar yr eiddo ar y cam adeiladu.

123. Os telir arian y Gronfa Tai â Gofal yn uniongyrchol i awdurdod lleol, rhaid cofrestru cyfyngiad yn erbyn y tir neu'r eiddo o blaid Gweinidogion Cymru.

124. Os telir arian y Gronfa Tai â Gofal i Bwrdd Iechyd Lleol sy'n ei dalu ymlaen i sefydliad cyflawni, megis Landlord Cymdeithasol Cofrestredig neu awdurdod lleol, rhaid gosod pridiant a/neu gyfyngiad cyfreithiol ar yr eiddo o blaid y Bwrdd Iechyd Lleol.

125. Os telir arian y Gronfa Tai â Gofal i Bwrdd Iechyd Lleol, a'r Bwrdd Iechyd Lleol yn cadw'r arian hwnnw, nid oes unrhyw gofynion i osod pridiant a/neu gyfyngiad cyfreithiol. Noder bod angen cymeradwyaeth Gweinidogol ar Fyrddau Iechyd Lleol i gaffael neu waredu tir neu eiddo.

126. Os yw cynllun yn derbyn arian o'r Gronfa Tai â Gofal a Grant Tai Cymdeithasol, rhaid i'r sefydliad cyflawni ond osod un pridiant a/neu gyfyngiad cyfreithiol o blaid Gweinidogion Cymru.

127. Ni thelir unrhyw grant nes y ceir cadarnhad drwy ardystiadau grant fod pridiant a/neu gyfyngiad cyfreithiol priodol ar waith.

128. Pan fydd y cartrefi a gwblheir yn ofynnol i warantu benthyciadau, dylid gofyn am weithred gohirio, gan wneud y pridiant yn ail bridiant.

## Amcan 3 y Gronfa Tai â Gofal: cymeradwyo a thalu grant

129. Gall Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddefnyddio hyd at 10% o'u dyraniad blynyddol enwol ar gyfer prosiectau bach. Caiff un llythyr dyfarnu grant am y swm hwn ei roi i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Wedyn gall Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol gomisiynu prosiectau bach neu sefydlu cynlluniau grant bychain hyd at y gwerth a nodir yn y llythyr dyfarnu grant.

130. Gellir cyflwyno hawliadau ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn ariannol, heblaw'r chwarter olaf pan fydd yn rhaid i hawliadau ddod i law erbyn 28/29 Chwefror neu ddiwrnod gwaith olaf y mis os bydd yr 28/29 ar benwythnos.

131. Os na fydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn defnyddio ei ddyraniad cyfan o dan Amcan 3 mewn blwyddyn benodol, bydd balans y cyllid ar gael i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gefnogi cynlluniau o dan Amcanion 1 a 2.

132. Rhaid i brosiectau a chynlluniau a gaiff eu cyllido o dan Amcan 3 gael eu nodi yn y Cynllun Buddsoddi Cyfalaf. Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r Cynllun Buddsoddi Cyfalaf yn y cyfarfodydd monitro chwarterol gyda phob Bwrdd Partneriaeth Lleol. Rhaid i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol fodloni ei hun bod ganddo ddulliau llywodraethu a monitro priodol i sicrhau y caiff cyllid Amcan 3 ei wario yn unol â dibenion, nodau ac amcanion y Gronfa Tai â Gofal.

## Talu grant i Fyrddau Iechyd Lleol: Amcan 2 a 3

133. Gall mai’r Bwrdd Iechyd Lleol fydd derbynnydd cyllid cyfalaf y Gronfa Tai â Gofal ar gyfer peth neu’r oll o brosiectau Amcan 2 a 3. Dylai trefniadau a wneir yn y rhanbarth ac a ategir gan y llythyr dyfarnu grant ei hun sicrhau bod y trefniadau llywodraethu a diwydrwydd dyladwy gofynnol wedi'u rhoi ar waith i ategu'r llif o gyllid i'r Bwrdd Iechyd Lleol neu ohono i bartneriaid eraill y prosiect yn ôl y gofyn (gan gynnwys cyrff trydydd sector, awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, ymhlith eraill).

134. Mae gan Fyrddau Iechyd Lleol y pŵer i dalu cyfalaf y Gronfa Tai â Gofal i awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig o dan adran 194 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Mae Adran 194 yn darparu y gall Bwrdd Iechyd Lleol wneud taliadau i gyrff penodedig mewn perthynas â gwariant ar wasanaethau cymunedol. Mae hyn yn cynnwys taliadau i'r canlynol:

- Awdurdodau lleol tuag at wariant yr eir iddo mewn perthynas â'i swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014;
- Awdurdod tai tuag at wariant yr eir iddo mewn perthynas â'i swyddogaethau yn Rhan 2 o Ddeddf Tai 1985;
- Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig mewn perthynas â gwariant yr eir iddo mewn perthynas â darparu llety tai.

135. Caiff cyfalaf y Gronfa Tai â Gofal ei dalu ar ffurf ôl-daliadau a gellir ei hawlio bob chwarter neu bob mis. Bydd angen cyflwyno cofrestr monitro ariannol a phridiannau cyfreithiol ar yr un pryd â'r hawliad.

## Cyfrifon banc prosiectau

136. Bydd yn ofynnol i bob cynllun sy'n cael cyllid o'r Gronfa Tai â Gofal sydd â gwerth contract dros £2 filiwn agor Cyfrif Banc Prosiect. Mae hyn yn un o amcanion polisi allweddol Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau taliadau prydlon drwy'r gadwyn gyflenwi adeiladu. Bydd tystiolaeth bod cyfrif banc prosiect wedi cael ei agor yn un o ofynion y cam talu grant adeiladu.

137. Mae rhagor o wybodaeth am gyfrifon banc prosiectau i'w gweld yma ac mae canllawiau ar ddefnyddio cyfrifon banc prosiectau i'w gweld yma.

138. Gellir anfon ymholiadau am bolisi Llywodraeth Cymru ar gyfrifon banc prosiectau at dîm Polisi Caffael Llywodraeth Cymru yn y cyfeiriad e-bost canlynol: PolisiMasnachol@llyw.cymru

## Caffael

139. Dylai pob sefydliad cyflawni sicrhau bod y gwaith o gaffael gwasanaethau dylunio arbenigol ac asiantiaid cyflenwi priodol yn unol â pholisïau a gweithdrefnau caffael safonol y sefydliad.

140. Dylai'r broses gaffael hefyd fod yn gyson â Datganiad Polisi Caffael Cymru.

141. Mae'r defnydd o gytundebau fframwaith presennol yn dderbyniol ar yr amod eu bod wedi'u dyfarnu'n briodol a'u bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau caffael cyhoeddus cyfredol.

## Monitro'r Rhaglen

142. Mae trefniadau monitro a gwerthuso effeithiol yn bwysig er mwyn rhoi sicrwydd bod cyllid cyfalaf y Gronfa Tai â Gofal yn cael ei ddefnyddio'n llawn i gefnogi darpariaeth tai a llety integredig ac ataliol.

143. Rhaid bod gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol drefniadau cryf i sicrhau bod cynlluniau a ariennir gan y Gronfa Tai â Gofal yn cyflawni'r canlyniadau a fwriedir ar amser ac o fewn cyllid.

144. Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal cyfarfodydd monitro chwarterol gyda phob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i adolygu cynnydd a pherfformiad ariannol. Cynhelir cyfarfodydd amlach yn ôl y gofyn, yn enwedig yn ail hanner y flwyddyn ariannol.

145. Mae Llywodraeth Cymru yn mynnu bod Byrddau Partneriaeth Lleol yn cyflwyno adroddiadau monitro chwarterol, gan gynnwys:

- Cyllid
- Cyflawni
- Risgiau i'r rhaglen a statws Coch/Melyn/Gwyrdd cynlluniau a phrosiectau
- Allbynnau a chanlyniadau erbyn 30 Medi a 31 Mawrth
- Gwireddu buddiannau

146. Ag eithrio risgiau, rhaid i adroddiadau fod yn gronnol a chrynhoi'r sefyllfa gyffredinol ar yr adeg berthnasol yn ystod y flwyddyn ariannol.

147. Byddwn yn ymgynghori ymhellach â Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ar ddatblygu dangosyddion gwireddu buddiannau.

148. Crynhoir y gofynion monitro'r rhaglen isod:

| **Gofyniad** | **Amlder ac erbyn pryd** |
|---|---|
| Cyflwyno Cynllun Buddsoddi Cyfalaf wedi'i ddiweddaru, adroddiad ariannol a chofnod risg | Q1 - erbyn 31 Gorffennaf 2022<br>Q2 – erbyn 31 Hydref 2022<br>Q3 – erbyn 31 Ionawr 2023<br>Q4 – erbyn 30 Ebrill 2023 |
| Cyflwyno adroddiad monitro allbynnau a chanlyniadau | Bob 6 mis<br>erbyn 31 Hydref 2022 a<br>30 Ebrill 2023 |
| Gwireddu buddiannau (bydd mwy o wybodaeth ar gael yn gynnar yn 2022) | Bob 6 mis<br>erbyn 31 Hydref 2022 a<br>30 Ebrill 2023 |

| | |
|---|---|
| Cyfarfodydd monitro | Chwarterol – ar ôl cyflwyno'r Cynllun Buddsoddi Cyfalaf ac adroddiad monitro |
| Cyfarfodydd adolygu ffurfiol (i gynnwys cynrychiolwyr y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol) | Bob 6 mis |

## Cyfathrebu a brandio

149. Rhaid cydnabod unrhyw gymorth gan Lywodraeth Cymru ar ddeunydd cyhoeddusrwydd, datganiadau i'r wasg a deunydd marchnata a gynhyrchir mewn perthynas â'r cynllun, yn ogystal ag arwyddion ar y safle yn ystod y cam datblygu.

150. Rhaid i'r fath gydnabyddiaeth fod ar ffurf a gymeradwyir gan Lywodraeth Cymru a rhaid iddi gydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru sydd i'w gweld yn https://llyw.cymru/logo-llywodraeth-cymru-canllawiau.